**Dyddiadau ffenestri mynegi diddordeb Medi 2022**

| **Cynllun** | **Crynodeb** | **Dyddiadau ffenestri** |
|---|---|---|
| Llacio Rheolau Glastir | Gall unrhyw ffermwr sy'n cael anhawster cwrdd â gofynion ei gontract Glastir ofyn am lacio'r rheolau, gan ddefnyddio'i gyfrif RPW Ar-lein.<br><br>Gellir gwneud cais i lacio'r rheolau ar unrhyw opsiwn o fewn contract Glastir ac ystyrir y ceisiadau fesul achos.<br><br>Dylid darparu manylion yr opsiwn a rhif y cae, ynghyd â chymaint o wybodaeth â phosib ynghylch yr amgylchiadau sydd wedi arwain at y cais. Gall fod angen dogfennau ategol mewn rhai amgylchiadau, yn dibynnu ar natur y cais.<br><br>**FODD BYNNAG, fel mae pethau'n sefyll ar hyn o bryd, bydd yn rhaid fforffedu'r taliad perthnasol ar y parsel tir dan sylw.** | |
| Cynllun Cynllunio Creu Coetir | Mae'r Cynllun Cynllunio Creu Coetir yn cynnig grantiau o rhwng £1000 a £5000 i ddatblygu cynlluniau i greu coetir newydd.<br><br>Ar ôl i gynllun gael ei gymeradwyo gan Cyfoeth Naturiol Cymru mi fydd yn gymwys i dderbyn cyllid gan Lywodraeth Cymru i blannu coed.<br><br>Mae gwybodaeth bellach ar gael yma<br><br>Mae dyluniad y cynllun yn seiliedig ar y cynllun peilot a gynhaliwyd y llynedd. Bydd y cynllun ar agor trwy'r flwyddyn (yn amodol ar gyllideb), gyda cheisiadau'n cael eu dethol bob 6 wythnos.<br><br>Bydd cyllid ar gyfer creu coetir ar gael o Awst 2022, gyda ffenestri'n agor bob 3 mis o hynny ymlaen (yn amodol ar gyllideb). | Ar agor tan 31ain Rhagfyr 2022 |
| Grantiau Bach – Creu Coetir | Mae Grantiau Bach - Creu Coetir yn gynllun sydd wedi ei anelu at ffermwyr a rheolwyr tir eraill i'w hannog i blannu coetiroedd bach ar dir sydd wedi'i wella'n amaethyddol neu dir isel ei werth amgylcheddol yng Nghymru.<br><br>Mae arian ar gael ar gyfer plannu coed ar hyd cyrsiau dŵr, yng nghorneli caeau neu mewn caeau bach i greu mannau cysgodi stoc, i hybu bioamrywiaeth ac i gynhyrchu tanwydd coed. Mae Grantiau Bach – Creu Coetir yn daliad premiwm ar gyfer y gwaith plannu newydd a chynigir taliadau hefyd am 12 mlynedd ar gyfer gwaith Cynnal a Chadw. Mae'r broses ymgeisio yn sicrhau bod cynigion yn bodloni gofynion Safon Coedwigaeth y DU (UKFS) heb ichi orfod anfon cynllun creu coetir i Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer ei ddilysu. Mae'r cyllid ar gael ar gyfer plannu lleiniau rhwng 0.1ha ac 1.99ha o faint<br><br>Mae'r cynllun yn cynnig grantiau i blannu coed ar dir sydd wedi'i nodi fel tir sensitifedd isel ar y Map Cyfleoedd Coetir | 30ain Awst 2022 – 14eg Hydref 2022 |

| | | |
|---|---|---|
| | yn unig. Nid yw cynefinoedd â blaenoriaeth na thir uwchlaw llinell derfyn tiroedd sydd wedi'u hamgáu a thir comin yn gymwys, oherwydd yr effaith bosibl ar y dirwedd a chymhlethdodau eraill. Dylech wneud yn siŵr fod yr ardaloedd rydych yn eu cynnig o fewn yr ardal sensitifedd isel cyn mynd yn eich blaen. Os nad ydyn nhw, ni fyddwch yn gymwys ar gyfer y cynllun Grantiau Bach – Creu Coetir a bydd angen ichi wneud cais i'r Cynllun Cynllunio Creu Coetir.<br><br>Mwy o wybodaeth:<br>https://llyw.cymru/grantiau-bach-creu-coetir-canllawiau-technegol | |
| Grantiau Bach – Amgylchedd | Mae cyllid hyd at £7,500 ar gael i reolwyr tir a busnesau fferm yng Nghymru ar gyfer prosiectau gyda chanlyniadau amgylcheddol buddiol.<br><br>Amcanion y cynllun yw cynorthwyo i gyflenwi prosiectau sydd o fudd i'r amgylchedd dan y themâu carbon, dŵr, a'r dirwedd a phryfed peillio.<br><br>Mwy o wybodaeth:<br>https://llyw.cymru/grantiau-bach-creu-coetir-canllawiau-technegol | 24ain Awst 2022 – 5ed Hydref 2022 |
| Coedwig Genedlaethol i Gymru - Y Grant Buddsoddi mewn Coetir (TWIG) | Mae'r cynllun ar agor unwaith eto i berchnogion a rheolwyr tir, gan gynnwys sefydliadau nid-er-elw. Bydd yn rhoi cymorth i bobl i greu coetiroedd newydd a/neu wella ac ehangu coetiroedd presennol yn unol â Safon Coedwigaeth y DU.<br><br>Grantiau o £40,000 i £250,000 a hyd at 100% o arian cyfalaf a refeniw.<br><br>Mae manylion llawn ar gael yma.<br><br>Dylai unrhyw brosiectau sy'n golygu creu coetir o dros ddwy hectar wneud cais i Gynllun Creu Coetir Llywodraeth Cymru cyn gwneud cais am arian grant TWIG. | Ffurflen Ymholiad Prosiect yn cau 14eg Hydref 2022 |
| Tyfu er mwyn yr Amgylchedd (cnydau a heuir yn y gwanwyn) | Mae Tyfu er mwyn yr Amgylchedd yn gynllun grant sydd ar gael i bob ffermwr cymwys yng Nghymru. Mae'r cynllun yn cynnig cymorth i dyfu a defnyddio cnydau, all arwain at welliannau ym mherfformiad amgylcheddol busnes fferm.<br><br>Amcanion y cynllun yw cynorthwyo ffermwyr i:<br>• Leihau allyriadau carbon a nwyon tŷ gwydr<br>• Addasu i'r newid yn yr hinsawdd a gwneud busnesau fferm yn fwy cydnerth<br>• Gwella ansawdd dŵr a lleihau'r perygl o lifogydd<br>• Cyfrannu at y nod o wyrdroi'r dirywiad ym mioamrywiaeth gynhenid Cymru.<br><br>Mae cnydau a gweithgaredd sy'n cael cymorth drwy'r cynllun Tyfu er mwyn yr Amgylchedd wedi'u nodi ymlaen llaw fel rhai sy'n cynnig buddiannau clir a mesuradwy i'r amgylchedd a'r busnes fferm. | 10fed Hydref – 18fed Tachwedd 2022 |

| | | |
|---|---|---|
| | Yr uchafswm grant a ddyfarnir yw **£5,000**.<br><br>Mae'r isafswm grant a ddyfarnir yn **cyfateb i'r gyfradd dalu ar gyfer 1 hectar o gnwd cymwys.**<br><br>Gall eich cais fod yn uwch na'r uchafswm grant. Os caiff eich mynegiant o ddiddordeb ei ddewis, bydd y cais dan sylw'n cael ei gapio i'r uchafswm o £5,000.<br><br>Mwy o wybodaeth:<br><br>https://llyw.cymru/tyfu-er-mwyn-yr-amgylchedd | |
| Grant Creu Coetir | Mae'r Grant Creu Coetir yn cynnig arian i ffermwyr a rheolwyr tir i blannu coed a chodi ffensys. Mae yna hefyd daliadau cynnal a chadw a phremiwm i sicrhau bod y coed yn cydio'n llwyddiannus.<br><br>Mae'r Grant Creu Coetir ar gael ar RPW Ar-lein i ffermwyr a pherchnogion tir sydd â chynllun ar gyfer creu coetir gafodd ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru yn dilyn cais llwyddiannus i un ai'r Cynllun Peilot Cynllunio Creu Coetir neu'r Cynllun Cynllunio Creu Coetir yn unig.<br><br>Bydd y ffenestr ymgeisio gyntaf yn agor ar 30 Awst 2022 ac yn cau ar 14 Hydref 2022 ar gyfer cynnal y gwaith plannu a'r gwaith cyfalaf a ddewiswyd, i'w gwblhau a'i hawlio erbyn 31 Mawrth 2023.<br><br>Bydd y cynllun wedi hynny'n agor ar gyfer ceisiadau bob 3 mis. Rhagwelir y bydd y ffenestr nesaf yn agor ym mis Rhagfyr 2022 ar gyfer plannu coed yn nhymor plannu 2023/2024. Cewch ymgeisio am y Grant Creu Coetir faint a fynnoch o weithiau ond cewch ond cyflwyno un cais fesul ffenestr ymgeisio.<br><br>Rhaid plannu coetir cymeradwy ar o leiaf 0.25ha o dir plannu cymeradwy a does dim uchafswm. Mae arian ar gael ar gyfer pedwar categori o goetir. Gallwch hefyd hawlio arian i adeiladu ffens ar gyfradd uwch o £5.56/metr.<br><br>Mae cyllideb o £1 miliwn wedi'i dyrannu ar gyfer y ffenest ymgeisio hon.<br><br>Mwy o wybodaeth:<br><br>https://llyw.cymru/grant-creu-coetir-llyfryn-rheolau | 30ain Awst 2022 – 14eg Hydref 2022 |

| | | |
|---|---|---|
| Cronfa Rhwydweithiau Natur (Rownd Dau) | Mae grantiau ar gael i unigolion/sefydliadau sydd angen cyllid ar gyfer prosiect natur sy'n barod i ddechrau, gyda grantiau rhwng £30,000 ac £1 filiwn. Dylai'r prosiect ganolbwyntio ar wella bywyd gwyllt a bioamrywiaeth o fewn safleoedd gwarchodedig (ACA, AGA a SoDdGA).<br><br>https://llyw.cymru/grant-creu-coetir-llyfryn-rheolau | 18 Awst – 19 Hydref 2022 ar gyfer grantiau rhwng £30,000 a £250,000<br><br>Dyddiau cau mynegiant o ddiddordeb ar gyfer grantiau o £250,000 i £1 filiwn: 20 Medi 2022 |
| Cynllun Arallgyfeirio Amaethyddol | Bydd y cynllun yn darparu grantiau cyfalaf i helpu i sefydlu neu ddatblygu prosiectau arallgyfeirio amaethyddol, gan gynnwys tyfu cnydau gwahanol neu amgen, ychwanegu gwerth at gynnyrch neu sgil-gynnyrch nad yw'n fwyd, a mentrau da byw nad ydynt yn fentrau traddodiadol yng Nghymru, er enghraifft godro defaid neu eifr. | 10fed Hydref 2022 i 31ain Ionawr 2023 |

**PWYSIG**

Ni fydd unrhyw estyniadau i'r dyddiadau cau ar gyfer hawlio unrhyw un o'r cynlluniau uchod oherwydd y cyfyngiadau ar ddyrannu cyllideb. O ganlyniad, mae Llywodraeth Cymru'n caniatáu i bobl archebu eitemau unwaith y byddant wedi derbyn cynnig o gontract, a chyn derbyn y contract.

Maent yn cynghori pobl i archebu, neu o leiaf i wneud ymholiadau yn ystod y cyfnod hwn i sicrhau bod eitemau'n cael eu dosbarthu mewn pryd neu'r gwaith yn cael ei gwblhau o fewn yr amserlen. Os na ellir gwneud hynny, a bod tystiolaeth ysgrifenedig yn cael ei darparu i gadarnhau'r rhesymau pam, gall ymgeiswyr dynnu'n ôl o'r cynllun ac ni fyddant yn cael eu heithrio o rowndiau yn y dyfodol.

Os byddant yn derbyn y contract ac yna'n methu â bodloni'r amodau o fewn yr amserlen berthnasol, mi allant gael eu heithrio o rowndiau'r cynllun yn y dyfodol.